

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 06799376 (Cymru a Lloegr)

Rhif Cofrestru'r Elusen: 1128443



FOUNDATION

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Datganiadau Ariannol Archwiliedig y Flwyddyn a Ddaeth i Ben

ar 31 Awst 2021 ar gyfer

Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd

#OurClubChangesLives

BPU Limited Chartered Accountants

Archwilydd Statudol

Radnor House

Greenwood Close

Parc Busnes Porth Caerdydd

Caerdydd. CF23 SAA



FOUNDATION



**Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021**

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar yr elusen at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst 2021. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Prosesau Cyfrifyddu ac Adrodd Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2015).

Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Dogfen lywodraethu - Mae'r elusen yn cael ei llywio gan ei dogfen lywodraethu, sy'n weithred ymddiried, ac mae'n gwmni cyfyngedig, sy'n gyfyngedig drwy warant, yn unol â diffiniad Deddf Cwmnïau 2006.

Manylion Gweinyddol a Chyfeirio

Rhif Cofrestru'r Cwmni - 06799376 (Cymru a Lloegr)

Rhif Cofrestru'r Elusen - 1128443

Swyddfa gofrestredig - Tŷ Chwaraeon (House of Sport) 3 Clos Pare Morgannwg
Caerdydd CF11 SAW

Enw'r Ymddiriedolwyr

L Andrews
S Mansfield
V K Choo
S Borley
MA Hamer
CD Hatcher
K Griffiths
KM Sheppard
K Dalton
H Dafydd

Rôl ar y Bwrdd

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Is-gadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Trysorydd

Cyfarwyddwr y Sefydliad

Gavin Hawkey

Aelodau eraill o Staff Rheoli Allweddol

Simon Stephens
Paul Bullock



FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021

Manylion Gweinyddol a Chyfeirio

Yr Archwilwyr

BPU Limited Chartered
Accountants Archwilydd
Statudol
Radnor House
Greenwood Close
Parc Busnes Porth
Caerdydd Caerdydd
CF23 SAA

Banc

Banc Barclays
Canolfan Siopa Dewi Sant
28 Stryd Working
Caerdydd
CF10 2DP

Adroddiad Strategol

Gwybodaeth am Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd
Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yw elusen swyddogol Clwb
Pêl-droed Dinas Caerdydd.

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyflawni eu llawn botensial.

Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw defnyddio apêl unigryw Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i newid
bywydau yn ne Cymru. Rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn goresgyn
rhwystrau drwy helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy egnïol, gwella addysg a
chyfleoedd cyflogaeth, a lleihau troseddau ac aildroseddau. Yn syml, mae ein clwb yn
newid bywydau.

Gwerthoedd

Angerdd

rydym yn teimlo'n angerddol am yr hyn rydym yn ei wneud,
ac yn defnyddio ein hangerdd i ysbrydoli eraill. Rydym yn
falch o'r gwahaniaeth rydym ni'n ei wneud, ac o lwyddiannau
ein buddiolwyr.

Cynhwysiant

rydym yn credu mewn cynhwysiant, yn dathlu amrywiaeth
ac yn canolbwyntio ar anghenion pob unigolyn a chymuned.

Arloesi

rydym yn mabwysiadu dull arloesol o ddylunio, darparu a
gwerthuso rhaglenni, gan gydgyhyrchu gyda buddiolwyr i
sicrhau dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan gyfranogwyr.

Proffesiynoldeb

mae ein staff yn athrawon, yn fentoriaid, yn hyfforddwyr ac yn
fodelau rôl, ac maen nhw'n ymddwyn mewn ffordd broffesiynol.

Ansawdd

rydym yn darparu rhaglenni o ansawdd uchel sy'n helpu ein
buddiolwyr i gyflawni eu llawn botensial.



FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021



Amcanion er Budd y Cyhoedd

Mae amcanion y Sefydliad er budd y cyhoedd yn gyffredinol ac, yn benodol, er budd trigolion Caerdydd a'r cyffiniau:

- » Annog y gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden iach drwy ddarparu cyfleusterau i chwarae pêl-droed a chwaraeon eraill sy'n gallu gwella iechyd (mae 'cyfleusterau' yn yr achos hwn yn golygu tir, adeiladau, offer a threfnu gweithgareddau chwaraeon);
- » Darparu, a helpu i ddarparu, cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, hamdden neu weithgareddau eraill o'r fath i bobl sydd angen y cyfleusterau hynny oherwydd eu llencyndod, oedran, gwendid neu anabledd, tldi neu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, neu i'r cyhoedd yn gyffredinol er lles cymdeithasol, gyda'r nod o wella eu hamodau bywyd;
- » Gwella addysg plant a phobl ifanc drwy ddulliau sy'n addas ym marn yr ymddiriedolwyr, yn unol â'r gyfraith elusennau; ac
- » At ddibenion cyffredinol cyrff elusennol o'r fath neu at ddibenion elusennol eraill yn unig ym mhob achos, yn unol â phenderfyniadau'r ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Ein Rhaglenni / Gwasanaethau

Dyma ein rhaglenni a'n gwasanaethau craidd:

- » Y Blynyddoedd Cynnar a Datblygiad Cynradd
- » Addysg a Hyfforddiant Uwchradd
- » Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth Ôl-16
- » Allgymorth Cymunedol ac Ieuenctid
- » Profiadau'r Adar Gleision

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaethau a phrosiectau cymunedol pwrpasol ar sail y galw, sy'n cynnwys:

- » Llwybrau Cadarnhaol (Prosiect Llesiant Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog)

Nid oes unrhyw brosiect na gwasanaeth a ddarperir gan y Sefydliad yn dibynnu ar wirfoddolwyr, ac maen nhw'n cael eu cynnal gan staff y Sefydliad.

Perfformiad a Llwyddiannau Allweddol

Cyrhaeddiad

Yn ystod y flwyddyn, roedd 20,636 o bobl wedi cymryd rhan yn ein gwasanaethau, gan arwain at bresenoldeb o 71,304 (19/20 = 83,335). Roedd hyn yn cynnwys:

- » **5,176** o bobl yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn sesiynau (19/20 = 8,102)
- » **15,460** o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau eraill (19/20 = 7,754)
- » **39%** Marched (19/20 = 40%)
- » **11%** BAME (19/20=7%)
- » **8%** Anabledd (19/20 = 6%)

Roeddem wedi darparu cyfanswm o 7,996 o sesiynau (19/20 = 5,487) a 1,078 o sesiynau digidol. Cynhaliwyd 72% o'n sesiynau mewn ardaloedd sydd â lefelau amddifadedd uwch na'r cyfartaledd, a chynhaliwyd 56% o'n sesiynau mewn 30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.



FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021

Cafodd Covid-19 a'r cyfyngiadau symud cenedlaethol effaith sylweddol ar gyrhaeddiad ein rhaglenni. Fe wnaethom addasu ein rhaglenni a newid i ddarpariaeth ddigidol pan oedd hynny'n bosibl, ac ailafael mewn gwasanaethau wyneb yn wyneb pan oedd hi'n ddiogel gwneud hynny ac yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

Impact

Canlyniad 1 – Bywyd iachach a mwy egniol

- » Cafwyd ymateb cadarnhaol gan **84%** o'n buddiolwyr pan ofynnwyd iddyn nhw am effaith ein gwaith ar eu hiechyd a'u llesiant (19/20 = 86%).
- » Dywedodd **83%** o'r plant a oedd wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau penodol ar gyfer nam eu bod yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol ers bod yn y sesiynau.
- » Cafwyd ymateb cadarnhaol gan **85%** o'r rheini a oedd wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau allgymorth cymunedol ar gyfer ieuenctid pan ofynnwyd iddyn nhw am eu llesiant meddyliol ac emosiynol ers ymwneud â'r prosiect.

Canlyniad 2 – Gwella cyfleoedd addysg a chyflogaeth

- » Cafwyd ymateb cadarnhaol gan **85%** o'n buddiolwyr pan ofynnwyd a ydym wedi gwella'r cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. (19/20 = 86%).
- » Roedd **86%** o'n myfyrwyr wedi llwyddo i gael y cymhwyster roedden nhw'n bwriadu ei gyflawni gyda ni. (19/20 = 93%).
- » Roedd **83%** o'n myfyrwyr wedi gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant (19/20 = 80%).

Canlyniad 3 – Llai o droseddu ac aildroseddu

- » Roedd **76%** o'n pobl ifanc yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn yn ein sesiynau ar gyfer cynllun 'Kicks' yr Uwchgynghrair, mewn cymhariaeth â 43% a oedd yn teimlo'n ddiogel iawn yn eu cymuned.
- » Dywedodd **95%** o'n buddiolwyr eu bod yn deall yn well sut mae ymddwyn mewn ffordd sy'n cymryd risg yn effeithio ar eu cyfleoedd mewn bywyd (19/20 = 91%).





FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021

Conglfeini

Mae ein conglfeini'n feysydd gweithredol allweddol yn yr elusen, ac yn sylfaen i'r broses o gyflawni ein nodau elusennol:

» Conglfaen 1 – Dealltwriaeth ac Effaith wrth galon ein sefydliad

Roedd Covid-19 wedi parhau i amharu ar y broses o ddarparu gwasanaethau. Rydym wedi newid rhwng darpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth ddigidol yn ystod y flwyddyn. Er yn anodd, roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi addasu'n dda i'r amgylchiadau cyfnewidiol. Rydym wedi gweithio'n galetach i gasglu data er mwyn gwella ein dealltwriaeth.

» Conglfaen 2 – Gweithlu amrywiol sy'n fedrus ac yn angerddol

Mae ein staff yn rhannu ymrwymiad cryf i gyflawni ein nodau a chefnogi'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw. Rydym wedi rhoi llawer iawn o gyfleoedd datblygu i'n staff yn ystod y flwyddyn. Mae Covid-19 wedi newid byd gwaith, ac mae hynny wedi cael effaith ar recriwtio a chadw staff.

» Conglfaen 3 – Dathlu llwyddiant

Rydym wedi parhau i ddathlu llwyddiant ein buddiolwyr drwy straeon effaith ac astudiaethau achos. Rydym wedi croesawu technoleg ddigidol fel ein prif ffordd o gyfathrebu, ac wedi gwneud cyfres o uwchraddiadau i'n seilwaith digidol er mwyn gwella'r prosesau cyfathrebu.

» Conglfaen 4 – Effaith gymdeithasol mewn model sy'n gynaliadwy o safbwynt ariannol

Rydym wedi parhau i gael effaith o fewn model sy'n ariannol gynaliadwy wrth ddelio â heriau Covid-19. Gyda chefnogaeth ein partneriaid cyllid, rydym wedi defnyddio adnoddau i fabwysiadu model cyflawni cyfunol. Rydym wedi adnewyddu neu ymestyn cytundebau gyda'n prif ddarparwyr cyllid, gyda llawer ohonyn nhw'n cynnig cymorth tan ddiwedd 2022. Mae hyn yn rhoi llwyfan i ni allu parhau i gael effaith. Ein hamcan yn y tymor hwy yw gwella ac arallgyfeirio incwm er mwyn gwasgaru'r risg a'r ddibyniaeth ar ffynonellau incwm a ddarparwyr cyllid pwysig.

» Conglfaen 5 – Diogelu a Llywodraethu Da

Rydym wedi cryfhau ein fframwaith rheolaethau a rheoli risg yn ystod y flwyddyn. Mae uwchraddio ein seilwaith digidol wedi ein galluogi i ddigideiddio prosesau ac i nodi gwelliannau. Rydym wedi parhau i flaenoriaethu llesiant staff a buddiolwyr drwy gydol y flwyddyn.

Y prif wersi a ddysgwyd

Mae ein cymunedau ein hangen ni nawr yn fwy nag erioed - Rydym wedi dysgu bod anghenion ein cymunedau yn mynd yn fwy dwys a chymhleth. Bydd angen i ni weithio'n galetach i ymateb i anghenion sy'n newid.

Diogelu pobl - mae diogelu yn un o'n pum conglfaen. Rydym wedi dysgu bod lefelau trais ymysg pobl ifanc, camfanteisio ar blant, ynysigrwydd cymdeithasol a llesiant gwael ar gynydd yn ein cymunedau. Rhaid i ni fod yn ofalus i wneud yn siŵr ein bod yn diogelu pobl.

Cynaliadwyedd ariannol - rydym wedi dysgu ein bod yn gallu ymdopi yn ystod cyfnodau ansicr. Mae'n costio mwy a mwy i ddarparu gwasanaethau, ac mae'r hinsawdd ariannol yn heriol. Bydd angen i ni arallgyfeirio ein refeniw a rheoli costau er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy.

Partneriaethau - rydym wedi dysgu pa mor bwysig yw cael cysylltiadau cryf â ddarparwyr cyllid a phartneriaid cyflawni. Roedd cysylltiadau y gallir dibynnu arnynt yn un o'r ffactorau llwyddiant hollbwysig a oedd wedi ein galluogi i addasu gwasanaethau. Bydd angen i ni barhau i drafod â ddarparwyr cyllid a phartneriaid cyflawni er mwyn gwella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig a chynyddu ein heffaith yn barhaus.

Rôl y byd digidol - rydym wedi dysgu bod y byd digidol yn gallu chwarae rôl bwysig yn y broses o ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys bod yn opsiwn wrth gefn os bydd rhywbeth yn tarfu ar y gwasanaeth, cynyddu cyrhaeddiad ein gwasanaethau a gwella ansawdd profiadau defnyddwyr ein gwasanaethau.



FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021



Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Mae'r Sefydliad yn cychwyn ar flwyddyn olaf ei gyfnod strategol cyfredol ar gyfer 2017-22. Yn ystod y flwyddyn, bydd bwrdd yr ymddiriedolwyr yn datblygu strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2027. Wrth wneud hynny bydd y bwrdd yn ystyried ein pwrpas, ein galluedd a'r amgylchedd allanol.

Yn y flwyddyn i ddod, wrth i'r Deyrnas Unedig ddod at ei hun ar ôl y pandemig, byddwn yn parhau i fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anghydraddoldeb. Byddwn yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant, addysg a chyflogaeth, ac ar leihau troseddu ac aildroseddu. Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu gwasanaethau'n ddiogel. Bydd hyn yn cynnwys ailgynllunio ac ail-lunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion sy'n newid, a gwella partneriaethau â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Mae ein blaenoriaethau strategol yn cynnwys datblygu'r sefydliad, datblygu'r gweithlu, cynaliadwyedd ariannol a datblygu gwasanaethau.

Datblygu Gwasanaethau

Mae ein cynlluniau ar gyfer datblygu gwasanaethau yn 21/22 yn cynnwys:

- » Ehangu ein rhaglen cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg ôl-16 i ymateb i'r nifer cynyddol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- » Ehangu ac arallgyfeirio ein rhaglen fentora un-i-un er mwyn helpu pobl ifanc i fagu hyder a gwella eu cadernid.
- » Gwella ein cyfleusterau yn Nhŷ Chwaraeon Dinas Caerdydd i wella profiadau dysgu a darparu gweithgareddau yn y gymuned.
- » Datblygu ein darpariaethau ar gyfer byd addysg (cynradd ac uwchradd) er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â fframwaith Cwricwlwm newydd i Gymru 2022.

Risgiau ac Ansicrwydd

Datganiad Rheoli Risg

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y prif risgiau y mae'r Sefydliad yn eu hwynebu o safbwynt gweithredol a busnes, ac yn cadarnhau bod systemau wedi cael eu sefydlu i'w gwneud yn bosibl i lunio adroddiadau rheolaidd er mwyn gallu cymryd y camau angenrheidiol i leihau'r risgiau.



FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021

BREXIT

Un o'r risgiau i'r busnes yw'r ansicrwydd ynghylch y ffordd mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rheoli'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd, a statws y llywodraeth mewn perthynas â gwledydd eraill. Gallai hyn effeithio ar gyllid yn y dyfodol os defnyddir cyllid yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Sefydliad yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit ac nid yw'n ddibynnol iawn, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, ar gyllid yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n bosibl y bydd effaith ar ddarparwyr a phartneriaid cyllid pwysig, a allai gael effaith anuniongyrchol ar y Sefydliad. Ni ddylai hynny gael effaith sylweddol ar y sefydliad.

COVID-19

Mae Covid-19 wedi amharu'n sylweddol ar economi'r Deyrnas Unedig. Roedd y cyfyngiadau lleol wedi parhau ar lefel ranbarthol ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol. Cafodd y cyfyngiadau effaith sylweddol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb, a chafodd rhai gwasanaethau eu newid i ddarpariaeth ddigidol pan oedd hynny'n bosibl. Rydym bellach mewn trydedd don o'r feirws, ac mae cyfyngiadau'n parhau ar wasanaethau wyneb yn wyneb.

Nid yw'n bosibl asesu effaith hyn yn llawn eto oherwydd yr ansicrwydd parhaus ynghylch y posibilrwydd o ragor o gyfyngiadau symud a'u heffaith gyfatebol ar sector y sefydliad ac ar economi ehangach y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried sut gallai llai o weithgarwch effeithio ar y Sefydliad, ochr yn ochr â'r mesurau cymorth i fusnesau sydd ar gael a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac maen nhw wedi cynllunio yn unol â hynny.

Bydd yr Ymddiriedolwyr a'r rheolwyr yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac i weithredu'n unol â hynny er mwyn lleihau unrhyw effaith niweidiol ar y sefydliad.

Adolygiad Ariannol a'r Sefyllfa Ariannol

Yn 2020/21, dechreuodd yr elusen y flwyddyn drwy barhau i ddarparu rhaglenni llwyddiannus, ond roedd Covid-19 wedi parhau i amharu ar hynny. Roedd hyn yn golygu newid prosiectau o fod yn ddarpariaeth wyneb yn wyneb i ddarpariaeth ddigidol pan oedd modd, er mwyn gallu parhau i roi cymorth i'n buddiolwyr.

Cafodd hyn effaith ariannol ar y sefydliad, a oedd wedi rheoli ei gyllid a'i adnoddau'n effeithiol drwy ddefnyddio grantiau'r cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws pan nad oedd modd defnyddio staff y prosiect yn ddiogel i sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd. Ar gynhyrchu incwm anghyfyngedig i gefnogi ein gweithrediadau craidd y gwelwyd yr effaith ariannol fwyaf.

Wrth i Covid-19 darfu ar bethau, ni fu modd defnyddio rhywfaint o'r incwm grant cyfyngedig i sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd, ac felly roedd llai o incwm yn sgil hynny.

Roedd cyfanswm yr incwm ar gyfer 2021 yn dod i **£1,544,651** (2020 - £1,766,510), gyda **£59,306** (2020 - £111,756) ohono wedi dod o grantiau'r cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Cafodd y grantiau eu hawlio pan nad oedd gwaith ar gael i staff y Sefydliad, ac roedd hynny wedi helpu i ddiogelu swyddi a chyllid. Pan gafodd grantiau'r cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws eu hawlio ar gyfer staff a oedd yn gweithio ar brosiectau â chyllid cyfyngedig, roedd yr arian hwnnw naill ai wedi cael ei ddychwelyd i'r cyllidwr, ei ailbroffilio gyda sêl bendith y cyllidwr, neu wedi ei gwneud yn bosibl i ymestyn y prosiect pan oedd y prosiect wedi cael ei ohirio ac yn aros i aildechrau gweithgareddau.

Cyfanswm y gwariant oedd **£1,477,107** (2020 - £1,690,283), sydd wedi cael ei grosio i fyny ar gyfer hawliadau am grantiau'r cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, gan arwain at gyfanswm gwarged o **£67,544** (2020 - £76,227).

Roedd cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn, ar ôl cynnwys hawliadau ar gyfer y cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, yn dod i gyfanswm o **£1,485,345** (2020 - £1,654,754), gydag **£1,101,650** (2020 - £1,141,499) yn cynnwys grantiau at ddibenion penodol. Roedd y balans o **£383,695** (2020 - £513,255), a oedd yn cynrychioli incwm anghyfyngedig, yn cynnwys **£169,774** (2020 - £285,685) o gyllid craidd a phrosiect a **£213,921** (2020 - £227,570)



FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021

o roddion cyffredinol. Roedd yr incwm o weithgareddau elusennol wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol, ac yn dod i gyfanswm o **£1,271,424** (2020 - £1,427,184).

Roedd cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd, ar ôl cynnwys hawliadau ar gyfer y cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, yn dod i gyfanswm o **£1,417,801** (2020 - £1,578,527), gydag **£1,229,406** (2020 - £1,373,923) ohono'n mynd yn uniongyrchol at weithgareddau elusennol, **£138,017** (2020 - £112,119) i helpu i ddarparu gwasanaethau, a **£50,378** (2020 - £92,485) at gostau codi arian.

Roedd y gwariant ar weithgareddau addysg yn dod i gyfanswm o **£678,295** (2020 - £747,917), a'r gwariant ar weithgareddau cymunedol yn dod i gyfanswm o **£394,164** (2020 - £389,560).

Y symudiadau net mewn cronfeydd oedd gwarged o **£67,544** (2020 - £76,227). Mae'r fantolen ar 31 Awst 2021 yn dangos bod cyfanswm y cronfeydd wrth gefn wedi'u cario ymlaen yn dod i **£905,317** (2020 - £837,773), sy'n cynnwys **£891,455** (2020 - £823,732) o gronfeydd anghyfyngedig ac **£13,862** (2020 - £14,041) o gronfeydd cyfyngedig. Mae'r cynnydd mewn cronfeydd anghyfyngedig dros y blynyddoedd blaenorol wedi galluogi'r Ymddiriedolwyr i greu cronfa wrth gefn ddynodedig o **£150,000** i'w wario ar weithgareddau penodol yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn nodyn 12 ar dudalen 29.

Y Prif Ffynonellau Cyllid

Y prif ddarparwyr cyllid oedd Cronfa Elusennol yr Uwchgynghrair (38%) Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd (13%), Coleg Caerdydd a'r Fro (15%), ACT Training (10%) ac Ymddiriedolaeth Cynghrair Pêl-droed Lloegr (6%). Nid yw'r Sefydliad yn codi llawer o arian drwy'r cyhoedd, felly nid yw'n dibynnu ar y ffynhonnell hon o gyllid.

Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Mae bwrdd yr ymddiriedolwyr yn adolygu polisi cronfeydd wrth gefn yr elusen bob blwyddyn yng nghyswllt yr amgylchedd ariannol, rheoleiddiol a chystadleuol cyfnewidiol. Wrth ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn rhydd y dylai'r elusen eu cael, rhoddir ystyriaeth i nifer o ffactorau, gan gynnwys y canlynol ymysg ffactorau eraill – lefelau cyfredol a disgwyliedig o incwm a gwariant, hylifedd ac asedau anariannol, risgiau, cyfleoedd a hapddigwyddiadau.

Y nod cyffredinol yw defnyddio arian yn ofalus i hybu ein hamcanion elusennol, gan gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn rhydd ar yr un pryd. Diffinnir cronfeydd wrth gefn rhydd fel cronfeydd anghyfyngedig, ac eithrio unrhyw gronfeydd dynodedig wedi'u clustnodi, nad ydynt yn cael eu buddsoddi mewn asedau sefydlog gweithredol.

Ym marn yr ymddiriedolwyr, o ystyried natur gwaith yr elusen, dylai fod gan yr elusen gronfeydd wrth gefn rhydd sydd gyfwerth â 3-6 mis o gyfanswm gwariant. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn bod hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd i ddelio â phrinder dros dro o adnoddau'n dod i mewn oherwydd gwahaniaethau amseru mewn llifau incwm, digon o gyfalaf gweithio i dalu am gostau craidd, ac y bydd yn galluogi'r elusen i ymdopi ac i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl wrth i gynlluniau gweithredu gael eu rhoi ar waith.

Mae lefelau incwm yr elusen yn amrywio ac yn ansicr, ac fe gollodd incwm yn 2019/20 oherwydd bod Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd wedi disgyn o'r Uwchgynghrair. Yn sgil effaith Covid-19 a'r bygythiad parhaus o golli incwm, mae'r elusen wedi clustnodi cronfa wrthsefyll i sicrhau y bydd ei gweithrediadau'n gynaliadwy yn 2021/2022.

Cyfanswm lefel y cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn oedd £891,455. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys tri swm sydd wedi'i glustnodi – £100,000 tuag at y prosiectau cymunedol ac addysg, £50,000 i gefnogi datblygiad a chynaliadwydd gwasanaethau'r Sefydliad, gyda'r ddau ffigur yn rhan o'r gronfa ddynodedig, a £250,000 mewn cronfa gwrthsefyll Covid-19 sy'n rhan o'r gronfa gyffredinol, gan adael £491,455 fel cronfa wrth gefn rydd. Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a'r polisi cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun y risgiau ariannol y mae'r elusen yn eu hwynebu. Bydd yr ymddiriedolwyr yn sicrhau bod cronfeydd wrth gefn a'r polisi cronfeydd wrth gefn yn cael eu monitro'n barhaus, a'u defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau canlyniadau mor gynaliadwy â phosibl a'r effaith fwyaf bosibl.



FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021



Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Dogfen Lywodraethu

Mae Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant, a gafodd ei gorffori ar 22 Ionawr 2009 a'i gofrestru fel elusen ar 6 Mawrth 2009. Sefydlwyd y cwmni o dan Femorandwm Cymdeithasu a oedd yn sefydlu amcanion a phwerau'r cwmni, ac mae'n cael ei lywodraethu o dan ei Erthyglau Cymdeithasu. Os bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben, mae'n rhaid i'r aelodau gyfrannu swm heb fod yn fwy na £10.

Recriwtio Ymddiriedolwyr

At ddibenion y gyfraith elusennau, mae ymddiriedolwyr yr elusen hefyd yn gyfarwyddwyr at ddibenion y gyfraith cwmnïau.

O dan yr Erthyglau Cymdeithasu, ni chaiff bwrdd yr ymddiriedolwyr gynnwys llai na saith, a rhaid iddo gynnwys hyd at dri ymddiriedolwr a benodwyd gan Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, a phedwar neu ragor o ymddiriedolwyr elusen a benodwyd gan yr ymddiriedolwyr. Mae ymddiriedolwyr yn cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd, ac yn cael gwasanaethu am uchafswm o dri thymor yn olynol.

Wrth ddewis unigolion i'w penodi'n ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen er mwyn llywodraethu'r Sefydliad yn effeithiol.

Mae'r ymddiriedolwyr sydd wedi gwasanaethu yn ystod y flwyddyn, a hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, wedi'u nodi ar dudalen 1.

Proses Gynefino a Hyfforddiant Ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr yn dilyn proses gynefino wrth gael eu penodi i fwrdd yr ymddiriedolwyr, ac yn derbyn Llawlyfr Llywodraethu Da ar gyfer Ymddiriedolwyr. Mae'r broses gynefino'n croesawu'r ymddiriedolwyr a'r staff ac yn rhoi crynodeb o strwythur, cyllid a phrosesau llywodraethu a gweinyddu'r Sefydliad. Hefyd, mae'r ymddiriedolwyr yn cael gwahoddiad i ymweld â phrosiectau ac i gwrdd â defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i lywodraethu'r Sefydliad yn effeithiol. Cynhelir gweithdai i wella sgiliau a gwybodaeth yn ôl yr angen.

Gwneud penderfyniadau

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Sefydliad, ac am gymeradwyo'r cynllun busnes a'r gyllideb flynyddol.

Mae bwrdd yr ymddiriedolwyr yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel rheol. Mae is-bwyllgorau sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig yn goruchwyllo agweddau penodol ar waith yr ymddiriedolwyr, ac yn cynnwys; Is-bwyllgor Diogelu, Is-bwyllgor Archwilio Cyllid a Risg, Is-bwyllgor Datblygu ac Is-bwyllgor Taliadau.

Mae gan y Sefydliad bolisi pwerau dirprwyedig, sy'n amlinellu'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i Gyfarwyddwr y Sefydliad. Cyfarwyddwr y Sefydliad sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun busnes ac am reoli'r Sefydliad o ddydd i ddydd. Mae Cyfarwyddwr y Sefydliad yn cael cymorth gan yr Uwch Dîm Arwain. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cael eu hystyried fel staff rheoli allweddol y Sefydliad.

Taliadau'r Staff Rheoli Allweddol

Mae'r Sefydliad wedi ymrwmo i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cynnig cyflog teg i ddenu a chadw staff, a rheoli cronfeydd yr elusen yn ofalus. Mae'r dull hwn o weithredu'n sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion elusennol mor effeithiol â phosibl.

Mae'r sefydliad yn dilyn cyfradd uchaf o 4:1 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog canolrifol. Mae Nodyn 6 yn cynnwys crynodeb o daliadau'r staff rheoli allweddol.



FOUNDATION

Adroddiad yr
Ymddiriedolwyr
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar
31 Awst 2021

Partneriaethau Allweddol

Mae llwyddiant y Sefydliad yn seiliedig ar berthynas hirsefydlog â chlwb pêl-droed Dinas Caerdydd. Mae ein partneriaethau strategol yn cynnwys yr Uwchgynghrair a Chronfa Elusennol yr Uwchgynghrair, Ymddiriedolaeth Cynghrair Pêl-droed Lloegr, Coleg Caerdydd a'r Fro ac ACT Training.

Mae ein partneriaethau ag elusennau eraill fel BBC Plant mewn Angen, cyrff statudol gan gynnwys Awdurdodau Lleol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ysgolion a thimau troseddau ieuenctid, mudiadau cymunedol a grwpiau cefnogwyr fel Clwb Cefnogwyr Dinas Caerdydd ac Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Caerdydd yn ein helpu i gael effaith ac i gynyddu ein heffaith.

Datganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

O dan y gyfraith cwmnïau, rhaid i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol, ac o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- » dewis polisïau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson; arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y
- » Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer Elusennau;
- » gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus;
- » paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i fasnachu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Hyd y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- » nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni;
- » mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'i gymryd er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yr Archwilwyr

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nesaf, bydd cynnig i ailbenodi'r archwilwyr, BPU Limited. Cymeradwywyd drwy orchymyn bwrdd yr ymddiriedolwyr ar 31 Ionawr 2022 a llofnodwyd ar ran bwrdd yr ymddiriedolwyr gan:

Leighton Andrews - Ymddiriedolwr



FOUNDATION



Adroddiad yr
Archwilwyr
Annibynnol i
Aelodau
Sefydliad
Cymunedol Clwb
Pêl-droed Dinas
Caerdydd

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd (y 'cwmni elusennol') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst 2021, sy'n cynnwys y Datganiad Gweithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- » yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Awst 2021, ac o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- » wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail y farn

Roeddem wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr wrth archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym ni'n credu bod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- » yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Awst 2021, ac o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- » wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i ni, o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), roi adroddiad i chi os:

- » nad yw'r ymddiriedolwyr yn gwneud defnydd priodol o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu



FOUNDATION

Adroddiad yr
Archwilwyr
Annibynnol i
Aelodau
Sefydliad
Cymunedol Clwb
Pêl-droed Dinas
Caerdydd

- » nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a welwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfwr am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad y rhoddir caniatâd i gyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol arnynt.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn ein hadroddiad.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall bod yr wybodaeth arall wedi cael ei chamddatgan mewn ffordd sydd o bwys. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n rhaid i ni benderfynu a oes

camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol, neu a yw'r wybodaeth arall wedi cael ei chamddatgan mewn ffordd sydd o bwys. Os byddwn yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, bod yr wybodaeth arall yma wedi cael ei chamddatgan mewn ffordd sydd o bwys, rhaid i ni roi gwybod am y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Barn ar faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad:

- » mae'r wybodaeth yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- » mae Adroddiad yr Ymddiriedolwyr wedi'i baratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

Ac ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i gyd-destun a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi gweld camddatganiadau o bwys yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i ni, o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, roi adroddiad i chi os ydym yn credu:

- » nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu os na ddaeth ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad i law gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- » nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- » nad yw rhai o daliadau'r ymddiriedolwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ni ar gyfer ein harchwiliad; neu
- » nad oedd gan yr ymddiriedolwyr hawl i fanteisio ar yr eithriad i gwmnïau bach rhag y gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu i baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.



FOUNDATION

Adroddiad yr
Archwilwyr
Annibynnol i
Aelodau
Sefydliad
Cymunedol Clwb
Pêl-droed Dinas
Caerdydd



Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr


Fel yr esboniwyd yn fanylach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar y cwmni elusennol at ddibenion y gyfraith cwmniau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni fo'r ymddiriedolwyr un ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.



Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol

- » Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel dda o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.
- » Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghraifft o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu dod o hyd i afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:
- » Daethom i ddeall y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i'r elusen a'r diwydiant y mae'n gweithredu ynddo, ac roeddem wedi ystyried risgiau gweithredoedd gan yr elusen a oedd yn groes i gyfreithiau a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys





FOUNDATION

Report of the Independent Auditors to the Members of Cardiff City FC Community Foundation

twyll. Roeddem wedi llunio gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risg, gan gydnabod bod y risg o beidio â dod o hyd i gamddatganiad o bwys o ganlyniad i dwyll yn uwch na'r risg o beidio â dod o hyd i un sy'n deillio o gamgymeriad, gan fod twyll yn gallu cynnwys ymgais fwriadol i guddio.

- » Y deddfau a'r rheoliadau a bennwyd gennym ni fel y rhai mwyaf arwyddocaol i'r elusen oedd y Ddeddf Cwmnïau, y Ddeddf Elusennau, y Comisiwn Elusennau a'r Ddeddf Amddiffyn Plant.
- » Daethom i ddeall sut mae'r elusen yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau hynny drwy holi'r rheolwyr, a chadarnhau canlyniad yr ymholiadau hynny drwy adolygu cofnodion y bwrdd ac adolygu'r gwariant cyfreithiol a phroffesiynol ar gyfer y flwyddyn.
- » Roeddem wedi asesu'r tebygolrwydd bod datganiadau ariannol yr elusen yn cynnwys camddatganiad o bwys, gan gynnwys sut gallai twyll ddigwydd, ac nid oeddem wedi dod ar draws unrhyw faterion archwilio allweddol a oedd yn ymwneud ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Roeddem wedi asesu effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol sydd ar waith gan y rheolwyr i atal a dod o hyd i dwyll, gan gynnwys profi cyfnodolion sydd heb gael eu creu'n awtomatig, a gwerthuso'r tybiaethau a'r penderfyniadau a wnaed gan y rheolwyr wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu o bwys.
- » Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adroddiad Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Unig ddiben ein gwaith archwilio yw gallu datgan i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n rhaid i ni eu datgan mewn adroddiad archwilwyr. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un, ac eithrio i'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am ein barn.




John Huw Palin FCA (Uwch Archwilydd Statudol)
ar gyfer ac ar ran BPU Limited Chartered Accountants
Statutory Auditor
Archwilydd Statudol

Dyddiad: 4th Ebrill 2022



FOUNDATION

(Gan gynnwys
Cyfrif Incwm a
Gwariant) ar gyfer y
Flwyddyn a ddaeth
i Ben ar 31 Awst
2021



Datganiad Gweithgareddau Ariannol

	Nodiad au	Cronfeydd Anghyfnged £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Crofeydd 2021 £	Cyfanswm Crofeydd 2020 £
Incwm					
Gweithgareddau Elusennol	2	176,353	1,154,377	1,330,73	1,538,940
Gweithgareddau codi arian, rhoddion a chynhyrchu arian	3	213,921	-	213,921	227,570
Cyfanswm		390,274	1,154,377	1,544,65	1,766,510
Gwariant					
Gweithgareddau Elusennol	4	218,707	1,070,005	1,288,712	1,485,679
Gweithgareddau Codi Arian	4	50,378	-	50,378	92,485
Costau Cefnogi		138,017	-	138,017	112,119
Cyfanswm		407,102	1,070,005	1,477,107	1,690,283
(Gwariant)/Incwm Net		(16,828)	84,372	67,544	76,227
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	12	84,551	(84,551)	-	-
Symudiadau net Mewn Cronfeydd		67,723	(179)	67,544	76,227
Cysoni Cronfeydd					
Cyfanswm y Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen		823,732	14,041	837,773	761,546
Cyfanswm Y Cronfeydd Wedi'u Cario Ymlaen		891,455	13,862	905,317	837,773

Gweithrediadau Sy'n Parhau

Mae'r holl incwm a gwariant wedi deillio o weithgareddau sy'n parhau.





FOUNDATION

Y Fantolen Ar 31 Awst 2021

Y Fantolen

	Nodiad au	Cronfeydd Anghyfynged £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Crofeydd 2021 £	Cyfanswm Crofeydd 2020 £
Asedau Sefydlog					
Asedau Diriaethol	8	43,562	-	43,562	51,284
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	9	84,949	-	84,949	72,113
Arian yn y banc ac mewn llaw		901,546	244,701	1,146,247	1,289,014
Cyfanswm		986,495	244,701	1,231,196	1,361,127
Credydwyd					
Symiau a Ddaw'n Ddyledus o Fewn Blwyddyn	10	(119,249)	(230,839)	(350,088)	(574,638)
(Rhwymedigaethau)/ Asedau Cyfredol Net		867,246	13,862	881,108	786,489
Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau		910,808	13,862	924,670	837,773
Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	11	(19,353)	-	(19,353)	-
Asedau Net		891,455	13,862	905,317	837,773
Cronfeydd					
Unrestricted Funds General Fund	12	-	-	741,455	673,732
Unrestricted Funds Designated Fund	12	-	-	150,000	150,000
Restricted Funds	12	-	-	13,862	14,041
Cyfanswm Cronfeydd		-	-	905,317	837,773

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â darpariaethau arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud â chwmnïau elusennol bach. Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 31 Ionawr 2022 a'u llofnodi ar ei ran gan:

K Griffiths

K Griffiths - Ymddiriedolwr



FOUNDATION

Datganiad Llif Arian Parod

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

Datganiad Llif Arian Parod

	Nodiadau	2021 £	2020 £
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredol: Arian parod a gynhyrchwyd drwy weithrediadau	1	(151,425)	163,922
Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol		(151,425)	163,922
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi: Prynu asedau sefydlog diriaethol		(10,695)	(32,857)
Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi		(10,695)	(32,857)
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi: Benthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn		19,353	-
Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi		19,353	-
Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd		(142,767)	131,065
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd		1,289,014	1,157,949
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd		1,146,247	1,289,014





FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiad Llif Arian
Parod

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

Nodiadau ar y Datganiad Llif Arian Parod

1. Cysoni'r (gwariant)/incwm net â'r llif arian parod net o weithgareddau gweithredol

	2021 £	2020 £
(Gwariant)/incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad gweithgareddau ariannol)	67,544	76,227
Addasiadau ar gyfer:		
Dibrisiant	18,417	18,576
Colled ar waredu asedau sefydlog	-	2,173
(Cynnydd)/(gostyngiad o ran dyledwyr	(12,836)	163,469
Cynnydd/(gostyngiad) o ran credydwyr	(224,550)	(96,523)
Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredol	(151,425)	163,922

2. Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

	Ar 1/9/20 £	Llif arian parod £	Ar 31/8/21 £
Arian parod net			
Arian yn y banc ac mewn llaw	1,289,014	(142,767)	1,146,247
Dyledion			
Dyledion a ddaw'n ddyledus ar ôl blwyddyn	-	(19,353)	(19,353)
Cyfanswm	1,289,014	(162,120)	(1,126,894)



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

1. Polisiâu Cyfrifyddu

Sail paratoi'r datganiadau ariannol

Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS 102) 'Prosesau Cyfrifyddu ac Adrodd Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi dan y confensiwn cost hanesyddol.

Sterling (£) yw'r arian a ddefnyddir, ac mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r bunt agosaf. Mae'r cwmni wedi cael ei gorffori yn y Deyrnas Unedig a'i gofrestru yng Nghymru.

Mae'r polisiâu cyfrifyddu pwysig a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn wedi'u nodi isod. Mae'r polisiâu hyn wedi cael eu defnyddio'n gyson ar gyfer yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

Ni fu unrhyw wyriadau o bwys oddi wrth Safon Adrodd Ariannol 102.

Busnes hyfyw

Mae'r ymddiriedolwyr wedi asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes hyfyw, gan ystyried effeithiau ariannol Covid-19 sydd wedi'u nodi yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gan yr elusen unrhyw fenthyciadau allanol, ac mae'n rheoli ei gweithgareddau gyda balansau banc positif heb gyfyngiad.

Mae'r ymddiriedolwyr yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu a rheoli amrywiadau tymor byr mewn ffrydiau incwm, ac maen nhw wedi sefydlu lefel sylfaenol o gronfeydd wrth gefn rhydd ar gyfer amrywiadau o'r fath.

Mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r elusen yn dangos y dylai'r elusen allu parhau i weithredu a'i bod mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau'n llwyddiannus dros y 12 mis nesaf.

Incwm

Mae'r holl incwm yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r arian, pan fydd yn debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fydd modd mesur y swm yn ddibynadwy.

Gwariant

Mae rhwymedigaethau'n cael eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bydd ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol yn rhwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, y bydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd mewn setliad, ac y gellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy. Mae gwariant yn cael ei gofnodi ar sail gronnus, ac mae wedi cael ei gategoreiddio o dan benawdau sy'n cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Pan na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol, maen nhw wedi cael eu neilltuo i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

Asedau sefydlog diriaethol

Defnyddir y cyfraddau blynyddol canlynol ar gyfer dibrisiant er mwyn dileu cost pob ased dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

- » Peiriannau a pheirianwaith - Balans yn lleihau **25%**
- » Cerbydau modur - Balans yn lleihau **25%**
- » Offer cyfrifiadurol - Dibrisiant llinol o **25%** a **33%**



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

Polisiau Cyfrifyddu – Parhad

Treth

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth gorfforaeth ar ei gweithgareddau elusennol.

Offerynnau Ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu hystyried yn offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod yn wreiddiol ar sail gwerth y trafodiad, ac yna'n cael eu mesur ar sail gwerth y setliad.

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod ar sail swm y setliad sy'n ddyledus, ac mae rhagdaliadau'n cael eu prisio ar sail y swm a dalwyd ymlaen llaw.

Mae credydwy'r a darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rhwymedigaeth sy'n deillio o ddigwyddiad blaenorol a fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a phan fydd modd mesur neu amcangyfrifo'n ddibynadwy y swm sy'n ddyledus er mwyn setlo'r rhwymedigaeth. Fel arfer, mae credydwy'r yn cael eu cydnabod ar sail swm y setliad, ar ôl ystyried unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

Cyfrifyddu yng nghyswllt cronfeydd (Fund accounting)

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr.

Dim ond at ddibenion cyfyngedig penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Mae cyfyngiadau'n codi pan fydd y rhoddwr yn eu pennu, neu pan fydd arian yn cael ei godi at ddibenion cyfyngedig penodol.


Mae'r nodiadau ar y datganiadau ariannol yn egluro ymhellach natur a phwmpas pob cronfa.

Ymrwymadau lesio a hurbwrcasu

Mae rhent sy'n cael ei dalu o dan lesioedd gweithredol yn cael ei gofnodi ar y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Costau pensiwn a buddiannau eraill ar ôl ymddeol

Mae gan y cwmni elusennol gynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun pensiwn y cwmni elusennol yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn y cyfnod y maen nhw'n berthnasol iddo.





FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

Polisiau Cyfrifyddu – Parhad

Amcangyfrifon a phenderfyniadau cyfrifyddu o bwys

Mae amcangyfrifon a phenderfyniadau'n cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad blaenorol a ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol sy'n cael eu hystyried yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

I baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n deillio o hynny, felly, yn debygol o fod yn wahanol i'r gwir ganlyniadau cysylltiedig.

2. Incwm o Weithgareddau Elusennol

	Cronfa Anghyfyngedig £	Cronfa Gyfyngedig £	2021 £	2020 £
Grantiau	6,579	52,727	59,306	111,756
Craidd	100,000	-	100,000	207,572
Addysg	-	762,668	762,668	749,583
Cymunedol	69,774	338,982	408,756	470,029
Cyfanswm	176,353	1,154,377	1,330,730	1,538,940

Mae nodyn 12 yn cynnwys dadansoddiad manwl o incwm grant at ddibenion penodol.

3. Arian A Ddaeth I Mewn Yn Sgil Gweithgareddau Codi Arian, Rhoddion a Chynhyrchu Arian

	2021 £	2020 £
Rhoddion	213,921	227,570

Mae'r rhoddion yn cynnwys £200,000 gan Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd (2020 - £200,000).



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

4. Gwariant

	Cronfa Anghyfyngedig £	Cronfa Gyfyngedig £	2021 £	2020 £
Gweithgareddau elusennol				
Craidd	156,947	-	156,947	245,577
Addysg	-	719,960	719,960	820,950
Cymunedol	61,760	350,045	411,805	419,152
Cyfanswm	218,707	1,070,005	1,288,712	1,485,679
Gweithgareddau codi arian				
Gweithgareddau codi arian	-	-	50,378	92,485
Costau cefnogi				
Craidd	-	-	16,809	18,533
Addysg	-	-	77,105	61,954
Cymunedol	-	-	44,103	31,632
Cyfanswm	-	-	138,017	112,119

Mae costau cefnogi wedi cael eu neilltuo i weithgareddau ar sail defnydd – h.y. yn gymesur â'r gwariant ar weithgareddau elusennol fesul gweithgaredd unigol.

Mae'r costau cefnogi yn cynnwys **£20,467** o gostau Llywodraethu (2020 - £24,732). Mae **£6,000** (2020 - £5,700) o'r costau Llywodraethu hyn yn ymwneud â thaliadau'r archwilyr.

5. Buddion A Thaliadau'r Ymddiriedolwyr

Taliadau a buddion eraill yr Ymddiriedolwyr

Ni fu unrhyw daliadau na buddion eraill i ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn (2020 - £0).

Treuliau'r ymddiriedolwyr

Yn ystod y flwyddyn, ni thalwyd unrhyw dreuliau ymddiriedolwyr (2020 - £0) i'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â chostau teithio, gwestai a chynhaliath.



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

6. Costau Staff

	2021 £	2020 £
Cyflogau	937,470	1,068,276
Costau nawdd cymdeithasol	68,007	66,844
Costau eraill yn ymwneud â phensiwn	27,317	19,882
Cyfanswm	1,032,794	1,155,002

Dyma oedd cyfartaledd misol nifer y gweithwyr yn ystod y flwyddyn:

No.	44	55
-----	----	----

Nifer y gweithwyr yr oedd eu buddiannau gweithiwr (heb gynnwys costau pensiwn y cyflogwr) yn fwy na £60,000 oedd:

£60,001 - £70,000	1	-
-------------------	---	---

Personél rheoli allweddol

Roedd y costau a dalwyd gan yr Elusen mewn perthynas â staff rheoli allweddol yn dod i gyfanswm o **£141,587** ar gyfer y flwyddyn (2020 - £140,738).





FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

7. Cymharu Â Datganiad Gweithgareddau Ariannol 2020

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	Total funds
Incwm O			
Weithgareddau elusennol	397,441	1,141,499	1,538,940
Arian a ddaeth i mewn yn sgil gweithgareddau codi arian, rhoddion a chynhyrchu arian	227,570	-	227,570
Cyfanswm	625,011	1,141,499	1,766,510
Gwariant			
Weithgareddau elusennol	356,153	1,129,526	1,485,679
Gweithgareddau codi arian	92,485	-	92,485
Costau gweinyddol eraill	107,063	5,056	112,119
Cyfanswm	555,701	1,134,582	1,690,283
(Gwariant)/Incwm Net	69,310	6,917	76,227
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	5,582	(5,582)	-
Symudiadau net mewn cronfeydd	74,892	1,335	76,227
Cysoni cronfeydd			
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen	748,840	12,706	761,546
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen	823,732	14,041	837,773

8. Asedau Sefydlog Diriaethol

	Peiriannau a pheirianwaith £	Cerbydau modur £	Offer cyfrifiadurol £	Cyfanswm £
Cost				
Ar 1 Medi 2020	19,179	24,000	88,749	131,928
Ychwanegiadau	-	-	10,695	10,695
Gwarediadau	-	-	-	-
Ar 31 Awst 2021	19,179	24,000	99,444	142,623



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

	Peiriannau a pheirianwaith £	Cerbydau modur £	Offer cyfrifiadurol £	Cyfanswm £
Dibrisiant				
Ar 1 Medi 2020	12,529	19,730	48,385	80,644
Dibrisiant am y flwyddyn	1,702	1,067	15,648	18,417
Wedi'i ddiddymu wrth waredu	-	-	-	-
Ar 31 Awst 2021	14,231	20,797	64,033	99,061
Gwerth net ar y llyfrau				
Ar 31 Awst 2021	4,948	3,203	35,411	43,562
Ar 31 Awst 2020	6,550	4,270	40,364	51,284

9. Dyledwyr: Symiau A Ddaw'n Ddyledus O Fewn Blwyddyn

	2021 £	2020 £
Dyledwyr masnach	52,149	42,002
Incwm cronnus	12,950	730
Rhagdaliadau	19,850	29,381
Cyfanswm	84,949	72,113

10. Credydwyr: Symiau A Ddaw'n Ddyledus O Fewn Blwyddyn

	2021 £	2020 £
Credydwyr masnach	27,349	16,108
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	17,498	20,844
Credydwyr eraill	4,198	6,159
Croniadau	57,965	49,075
Incwm gohiriedig	243,089	482,452
Cyfanswm	350,088	574,638



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

10. Credydwy'r: Symiau A Ddaw'n Ddyledus O Fewn Blwyddyn

Mae incwm gohiriedig yn ymwneud ag incwm a dderbynnir cyn dechrau cyflawni prosiect, ac mae wedi symud fel a ganlyn:-

	2021 £	2020 £
Incwm gohiriedig ar ddechrau'r cyfnod	482,452	428,419
Adnoddau a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn	772,050	296,287
Symiau a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn	(1,011,413)	(242,254)
Cyfanswm	243,089	482,452

11. Credydwy'r: Symiau A Ddaw'n Ddyledus Ar Ôl Mwy Na Blwyddyn

	2021 £	2020 £
Benthyciad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	19,353	-
Cyfanswm	19,353	-





FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

12. Symudiadau Mewn Cronfeydd

	Ar 1/9/20 £	Symudiada u net mewn cronfeydd £	Trosglwyddiada u rhwng cronfey £	Ar 31/8/21 £
Cronfeydd anghyfngedig				
Y Gronfa gyffredinol	673,732	(16,828)	84,551	741,455
Cronfa ddynodedig	150,000	-	-	150,000
Cyfanswm	823,732	(16,828)	84,551	891,455
Cronfeydd cyfyngedig				
Cynllun 'Primary Stars' yr Uwchgynghrair	-	-	-	-
Cynllun 'Disability' yr Uwchgynghrair	1,803	-	-	1,803
Cynllun 'Kicks' yr Uwchgynghrair	-	-	-	-
ACT Traineeship	-	13,727	(13,727)	-
The Princes Trust	7,233	(179)	-	7,054
Plant mewn Angen	39	-	-	39
Sefydliad SOL	390	-	-	390
Y Lleng Brydeinig Frenhinol	1,039	-	-	1,039
Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog	595	-	-	595
Cronfa Loteri Prydain	824	-	-	824
M&C Saatchi	1,837	-	-	1,837
'Kicks Targeted' yr Uwchgynghrair	281	-	-	281
Gradd Sylfaen EFL	-	18,220	(18,220)	-
Lefel 2 BTEC Ysgol Uwchradd Fitzalan	-	(2,120)	2,120	-
Lefel 3 BTEC Coleg Caerdydd a'r Fro	-	54,724	(54,724)	-
	14,041	84,372	(84,551)	13,862
Cyfanswm Cronfeydd	837,773	67,544	-	905,317

Trosglwyddwyd swm o **£84,551** i gronfeydd anghyfngedig ar gyfer gorwariant/
(tanwariant) net yn ystod y flwyddyn.



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

12. Symudiadau Mewn Cronfeydd – Parhad

	Adnoddau a ddaeth i mewn £	Adnoddau a ddefnyddiwyd £	Symudiadau mewn cronfeydd £
Cronfeydd anghyfyngedig			
Y gronfa gyffredinol	390,274	(407,102)	(16,828)
Cronfa ddynodedig	-	-	-
Cronfeydd cyfyngedig			
Cynllun 'Primary Stars' yr Uwchgynghrair	166,959	(166,959)	-
Cynllun 'Kicks' yr Uwchgynghrair	211,061	(211,061)	-
ACT Traineeship	158,373	(144,646)	13,727
Sefydliad PLPFA	85,071	(85,071)	-
Princes Trust	-	(179)	(179)
Plant mewn Angen	36,565	(36,565)	-
Sefydliad SOL	10,305	(10,305)	-
Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog	31,566	(31,566)	-
Cynllun 'Inspires' yr Uwchgynghrair	42,034	(42,034)	-
Clwb Gwaith Cartref Cyngor Caerdydd	22,151	(22,151)	-
'Kicks' – Arall	2,000	(2,000)	-
Sefydliad Waterloo	4,166	(4,166)	-
Cynllun 'Kicks Targeted' yr Uwchgynghrair	33,926	(33,926)	-
Gradd Sylfaen EFL	51,205	(32,985)	18,220
You V Train – EFL	4,000	(4,000)	-
Lefel 2 BTEC Ysgol Uwchradd Fitzalan	32,362	(34,482)	(2,120)
Lefel 3 BTEC Coleg Caerdydd a'r Fro	242,011	(187,287)	54,724
Cronfa 'Healthy Hearts'	2,964	(2,964)	-
Joy of Moving	14,700	14,700	-
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - Profiadau'r Adar Gleision	2,958	(2,958)	-
	1,154,377	(1,070,005)	84,372
Cyfanswm Cronfeydd	1,544,651	(1,477,107)	67,544

Dibenion Cronfeydd Dynodedig

Yn ystod blwyddyn 18/19, derbyniodd y Sefydliad roddion gwerth £400,000 gan Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Neilltuodd y Sefydliad £100,000 o'r arian hwn tuag at brosiectau cymunedol ac addysg yn 19/20 a 20/21, gyda £50,000 arall i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd gwasanaethau yn 19/20 a 20/21. Oherwydd Covid-19, mae'r Sefydliad wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gronfa ddynodedig hon i'w defnyddio ar brosiectau yn y dyfodol.



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

Addysg

Rhaglen sy'n cynnig cyfleoedd addysg gwahanol, gyda'r nod o symud pobl ifanc ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu i fyd gwaith.

	Dyddiad Dod i Ben	Gwerth Mwyaf £
Cyllidwr/Prosiect		
ACT Traineeship	2022	195,000
Clwb Gwaith Cartref Cyngor Caerdydd	2021	30,407
Cynllun 'Primary Stars' yr Uwchgynghrair	2022	420,000
PLPFA	2021	250,000
Cynllun 'Inspires' yr Uwchgynghrair	2022	135,000
Gradd Sylfaen EFL	2024	-
Lefel 2 BTEC Ysgol Uwchradd Fitzalan	2021	-
Lefel 3 BTEC Coleg Caerdydd a'r Fro	2022	231,526
Sefydliad Waterloo	2022	10,000
Clybiau Llesiant Cyngor Caerdydd	2022	29,974

Cymunedol

Rhaglen sy'n cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, i gynyddu uchelgais, ac i gael swydd, hyfforddiant neu le ym myd addysg. Rhaglen sy'n defnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol i helpu pobl i fyw bywyd mwy egniol ac iach. Dyma'r prosiectau cymunedol yn ystod y flwyddyn, ynghyd â hyd a gwerth y gefnogaeth:

	Dyddiad Dod i Ben	Gwerth Mwyaf £
Cyllidwr/Prosiect		
Cynllun 'Kicks' yr Uwchgynghrair	2022	600,000
The Princes Trust	2022	70,000
Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog	2022	135,000
Cynllun 'Kicks Targeted' yr Uwchgynghrair	2022	120,000
Plant Mewn Angen	2020	30,000
M & C Saatchi	-	-
Cronfa 'Disability' yr Uwchgynghrair	-	-
Y Lleng Brydeinig Frenhinol	2022	58,902
Sefydliad SOL*	2021	-
You V Train – EFL	2022	15,000
Joy of Moving – EFL	2022	58,059
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Yr Adar Gleision	2021	2,500
Gwersylloedd Gwyliau Cynllun 'Kicks' yr Uwchgynghrair	2022	16,403
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Gwirfoddoli		

*Y gwerth mwyaf yw 71,000 CHF (Ffranciau'r Swistir). Defnyddiwyd y gyfradd gyfnewid ar 31 Awst 2020, sef 1.2054 Ffranc am bob GBP, i drosi'r ffigur hwn (www.xe.com).



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

13. Ymrwymadau Cyfalaf

Bydd y taliadau les lleiaf o dan lesioedd gweithredu na ellir eu canslo yn ddyledus fel a ganlyn:

	2021 £	2020 £
O fewn blwyddyn	53,317	63,705
Mewn blwyddyn-pum mlynedd	100,000	128,317
Mewn mwy na phum mlynedd	275,000	300,000
Cyfanswm	429,316	492,021

Cyfanswm y taliadau les a oedd yn cael eu cydnabod fel treuliau yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn ystod y flwyddyn oedd **£63,705** (2020 - £63,705).

14. Datgeliadau Parti Cysylltiedig

Gwnaed y trafodiadau canlynol â busnes sydd â chysylltiad ag ymddiriedolwyr yr elusen :

- » Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Mae V K Choo yn Brif Weithredwr ar y Clwb, ac S Sorley yn Gyfarwyddwr – £26,328 o bryniannau a £200,632 o werthiannau. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd balans credydwr masnach o £76 a balans dyledwr masnach o £632. Cafwyd cyfanswm o £200,000 o roddion yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd dim yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ;
- » Tŷ Chwaraeon Dinas Caerdydd. Mae V K Choo ac S Sorley yn Gyfarwyddwyr arno – £42,991 o bryniannau. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd balans credydwr o £4,296 yn ddyledus.
- » Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Mae C Hatcher yn Gyfarwyddwr ar yr Ymddiriedolaeth – dim pryniannau yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd unrhyw falans heb ei dalu; ac
- » Ysgol Uwchradd Fitzalan. Mae S Mansfield yn Llywodraethwr yn yr Ysgol – £30,217 o werthiannau. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd balans dyledwr o £2,557 yn ddyledus.

15. Gwybodaeth Am Y Cwmni

Mae manylion am swyddfa gofrestredig y cwmni elusenol, sydd hefyd yn fan busnes iddo, wedi'u cynnwys yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, ynghyd â chadarnhad o'r rhan o'r Deyrnas Unedig lle mae'r cwmni wedi'i gofrestru.



FOUNDATION

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

	2021 £	2020 £
Incwm o weithgareddau elusenol		
Grantiau	59,304	111,756
Craidd	100,000	207,572
Addysg	762,668	749,583
Cymunedol	408,757	470,029
Cyfanswm	1,330,730	1,538,940
Arian a ddaeth i mewn yn sgil gweithgareddau codi arian, rhoddion a chynhyrchu arian		
Rhoddion	213,921	227,570
Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn	1,544,651	1,766,510
Gwariant ar weithgareddau elusenol		
Craidd	156,947	245,577
Addysg	719,960	820,950
Cymunedol	411,805	419,152
Cyfanswm	1,288,712	1,485,679
Gwariant ar weithgareddau elusenol		
Gweithgareddau codi arian	50,378	90,312
Colled ar waredu asedau sefydlog diriaethol	-	2,173
Cyfanswm	50,378	92,485



FOUNDATION

Nodiadau ar y
Datganiadau
Ariannol
ar gyfer y Flwyddyn
a Ddaeth i Ben ar 31
Awst 2021

	2021 £	2020 £
Costau cefnogi		
Cyfraddau a dŵr	4,590	3,745
Yswiriant	8,058	12,622
Ffôn	2,724	2,316
Postio a deunyddiau ysgrifennu	2,431	2,708
Manion bethau	557	695
Llogi cerbydau, moduron, teithio a chynhaliaeth	2,512	(962)
Dibrisiant	4,292	11,260
Llog banc	-	80
Costau cyfrifiadurol a'r wefan	47,864	32,295
Cyfathrebu a marchnata mewnol	20,569	-
Hyfforddiant a llesiant staff	1,216	648
Rhent	22,725	21,917
Atgyweirio ac adnewyddu	-	63
Taliadau archwilwyr	6,000	5,700
Ffioedd proffesiynol	14,469	19,032
Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd	138,107	1,690,283
Incwm net	67,544	76,227



FOUNDATION

info@cardiffcityfc.org.uk

02920 231 212

www.cardiffcityfcfoundation.org.uk

Cardiff City House of Sport
Close Parc Morgannwg
Cardiff
CF11 8AW